



GWASANAETH ARCHIFAU
ACHREDEDIG

ACCREDITED
ARCHIVE SERVICE

Achrediad Gwasanaethau Archifau:
Y Safon

Mehfin 2014

Beth yw Achrediad Gwasanaethau Archifau?

Achrediad Gwasanaethau Archifau yw safon y DU i wasanaethau archifau. Mae'r safon yn diffinio arfer dda ac yn dynodi safonau cytunedig a, thrwy hynny, yn annog ac yn cefnogi datblygiad. Mae'n disodli *Safon Storffeydd Cofnodion* yr Archifau Gwladol a'i rhaglen hunanasesu ar gyfer archifau'r awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o ddogfennau sy'n esbonio ac yn rheoli'r cynllun, sef:

- Y Safon – sy'n rhestru'r gofynion y mae'n rhaid i wasanaethau eu cyflawni er mwyn bodloni'r Achrediad Gwasanaethau Archifau a'r canlyniadau y gellir eu disgwyl.
- Y Canllawiau – sy'n rhoi cymorth i ddeall ac ateb gofynion y safon a llenwi'r ffurflen gais.
- Tabl Graddfeydd – sy'n rhannu gwasanaethau archifau i fathau o wasanaeth er mwyn caniatáu ar gyfer addasu'r gofynion yn unol â graddfa'r anghenion.
- Meini prawf Cymhwyster – meini prawf sy'n caniatáu i wasanaethau asesu eu cymhwyster ar gyfer achrediad.
- Geirfa – diffiniad o'r geiriau a'r termau a ddefnyddir yn y safon a'r canllawiau.
- Ffurflen gais – ar gyfer gwasanaethau archifau sy'n dymuno ymgeisio am Achrediad Gwasanaethau Archifau.
- Ffurflen Asesu - i'w llenwi gan yr aseswyr a'r dilysydd ac i'w chyflwyno i Banel Achredu'r Gwasanaethau Archifau.
- Tablau croesgyfeirio – i ddangos pa adrannau o Safon yr Achrediad Gwasanaethau Archifau sy'n cysylltu ag adrannau o safonau a chynlluniau eraill.

Nodau a manteision y cynllun


Mae'r Achrediad Gwasanaethau Archifau yn helpu gwasanaethau archifau i ddangos eu gwerth drwy ddilysu ac achredu cyflawniad yn allanol a thrwy gefnogi gwelliannau.

Mae hefyd yn anelu at fod:

- Yn gyson â chynlluniau sicrhau ansawdd, dulliau gwella a phrosesau casglu data perthnasol eraill, yn arbennig y Cynllun Achredu Amgueddfeydd.
- Yn fforddiadwy, yn awdurdodol ac yn hynod weladwy.
- Â'r gallu i fod yn annibynnol a pharhau i fod yn berthnasol mewn byd sy'n newid.
- Yn rhan annatod o waith Yr Archifau Gwladol a'i bartneriaid, gan ymdoddi'n llyfn i waith megis penodi Mannau Adneuo ar gyfer Cofnodion Cyhoeddus a dyrannu casgliadau o archifau a Dderbynnir yn Gyfnewid am Dreth Etifeddiant.

- Ar gael i sefydliadau trawsbarthol. Ni ddylai'r cynllun ei gwneud yn ofynnol cyflawni achrediad amgueddfeydd er mwyn cyflawni achrediad gwasanaethau archifau ac i'r gwrthwyneb.
- Ar gael ac yn berthnasol i ystod eang o wasanaethau archifau a mathau o wasanaethau ledled y DU.
- Yn canolbwyntio ar anghenion cymunedau¹ yn y presennol ac at y dyfodol gan gydnabod blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Yn rhoi cydnabyddiaeth lawn i anghenion gofal a chadwraeth y casgliadau.

Disgwylir i'r cynllun gyflwyno manteision ar draws saith o feysydd craidd, fel a ganlyn:



Proffesiynoldeb: dull i ddatblygu ac atgyfnerthu proffesiynoldeb sector archifau'r DU.

Perfformiad: safon ansawdd ledled y DU sy'n cynnig meincnod a symbyliad i fesur perfformiad, cydnabod cyrhaeddiad, sicrhau gwerth am bres a sbarduno gwelliant parhaus.

¹ Gweler y diffiniad yn yr Eirfa

Proffil: dull o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o archifau, gan feithrin hyder a hygrededd o fewn y rhiant-sefydliadau ac yn allanol.

Pobl: proses i helpu gwasanaethau archifau addasu ac ymateb i anghenion a diddordebau defnyddwyr ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu.

Partneriaethau: dull o helpu archifdai archwilio'u gwasanaeth yn ehangach ac i annog cydweithio oddi mewn i sefydliadau a rhwng gwahanol sefydliadau.

Cynllunio: fframwaith cadarn i hwyluso blaengynllunio, gwella gweithdrefnau a pholisi, a lleihau'r risg i'r sefydliad.

Nawdd: cydnabyddiaeth sy'n dangos gwasanaethau o ansawdd i gefnogwyr, rhoddwyr a chyrrff rhoi grantiau, gan gryfhau ceisiadau am arian, denu rhoddion dyngarol a meithrin ffydd ymhlith buddsoddwyr.

Cyflwyniad

Sut y cynlluniwyd y Safon

Mae Safon yr Achrediad Gwasanaethau Archifau wedi'i datblygu i ddiwallu anghenion sector archifau'r DU. Er ei bod yn sector-benodol o ran pwrpas a chynnwys, mae'r safon yn anelu at gefnogi'r symudiad tuag at ffyrdd integredig o weithio wrth reoli casgliadau diwylliannol. Mae'r Achrediad Gwasanaethau Archifau wedi'i gynllunio, felly, i gyd-blethu â fframweithiau a safonau cysylltiedig sy'n cael eu defnyddio eisoes yn y sectorau archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd, yn bennaf:

- Safon Mynediad at Archifau (NCA PSQG 2008)
- PAS 197: 2009, Cod ymarfer ar reoli casgliadau diwylliannol
- Achredu Amgueddfeydd (2011)

PAS 197

Mae dogfen PAS (*Publicly Available Specification*)197 yn darparu fframwaith nad yw'n gyfarwyddol ar gyfer cyrff sy'n casglu, fel archifdai, amgueddfeydd a llyfrgelloedd, er mwyn rheoli casgliadau diwylliannol mewn modd cyfannol.

Daeth PAS 197 i rym ym mis Ionawr 2009. Fe'i datblygwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig a'i noddai gan yr Ymddiriedolaeth Casgliadau, gyda chymorth grŵp llywio o un ar bymtheg o gyrff yn cynrychioli archifdai, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd ledled y DU.

Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn PAS 197 yn ceisio osgoi termau sydd â gwahanol ddefnydd neu ystyr i un neu ragor o'r sectorau archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd. Mae'r Achrediad Gwasanaethau Archifau yn mabwysiadu terminoleg PAS 197 pan yn briodol ac yn sylweddoli y bydd gwahanol deitlau yn ymddangos, mewn nifer o achosion, mewn dogfennau a gyflwynir fel tystiolaeth. Gwelir diffiniadau o dermau sy'n benodol i'r sector archifau, a chroesgyfeiriadau, yn yr Eirfa.

Strwythur

Mae tair adran i Safon yr Achrediad Gwasanaethau Archifau:

1. Iechyd Sefydliadol
2. Casgliadau
3. Rhanddeiliaid a'u profiadau

Mae'r adrannau hyn yn cydberthyn i'r Safon Achredu Amgueddfeydd. Mae cynnwys pob adran yn ategu'r Safon Achredu Amgueddfeydd, ond nid ydynt yn adlewyrchiad manwl ohoni. Gwelir y berthynas â'r meysydd o ddyblygu rhwng yr Achrediad Gwasanaethau Archifau a safonau eraill fel y Safon Mynediad at Archifau (PSQG) a'r Safon Achredu Amgueddfeydd yn y tablau croesgyfeirio.

Mae trefn y gofynion o fewn yr Achrediad Gwasanaethau Archifau yn defnyddio, fel prif gyfeirnod, y strwythur a argymhellir ar gyfer Fframwaith Rheoli Casgliadau integredig a nodir yn PAS 197.

Caiff y gofynion eu gosod yn y grwpiau a ganlyn:

- Polisiâu
- Cynlluniau
- Gweithdrefnau

Diffiniadau.²

Polisiâu. Maent yn disgrifio cyfeiriad a bwriadau cyffredinol sefydliad yn unol â'r hyn a fynegir yn ffurfiol gan yr uwch-reolwyr. O ran y polisiâu:

- maent yn darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a gweithredu sefydliadol
- caniateir eu hysgrifennu ar ffurf datganiad
- mae angen i gorff llywodraethu'r sefydliad eu cymeradwyo

Cynlluniau. Mae'r rhain yn ddogfennau sy'n edrych at y dyfodol gan osod allan amcanion y sefydliad a nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny, yn unol â pholisiâu'r sefydliad ac er mwyn cyflawni ei genhadaeth. Gall cynlluniau fod wedi'u gosod allan ar sail cynlluniau lefel uchel a hirdymor, i gynlluniau manwl a thymor byr, e.e:

- strategaethau (3-5 o flynyddoedd)
- cynlluniau busnes (blynyddol)

² Yn seiliedig ar ddiffiniadau a ddarparwyd gan PAS 197: 2009 a'r Achrediad Amgueddfedd

- cynlluniau gweithredu adrannol/unigol (yn ymwneud yn aml â phrosiectau neu gylchoedd adrodd)

Gweithdrefnau. Mae'r rhain yn disgrifio ffordd benodol o ymgymryd â gweithgarwch neu broses (cyfres o weithgareddau sy'n rhyngberthyn neu'n rhyngweithio), er mwyn cyflawni allbwn neu ganlyniad penodol. Gellir dogfennu gweithdrefnau ar ffurf canllawiau gweithredol, cyfarwyddiaduron, llawlyfrau, cyfarwyddiadau, siartiau llif ayb.

Canllawiau

Mae canllawiau i gyd-fynd â phob un o ofynion Safon yr Achrediad Gwasanaethau Archifau, a'r rheiny wedi'u cynllunio i helpu ymgeiswyr:

- i ddeall pwrpas y gofynion, a'r canlyniadau sy'n ddymunol yn sgil eu bodloni.
- deall disgwyliadau'r gofynion, fel ag y maent yn berthnasol i fath a graddfa eu harchifau penodol hwy
- dynodi tystiolaeth ategol bosibl
- canfod dulliau gweithredu ac adnoddau a allai gynorthwyo gyda'r gwaith o fodloni'r gofynion

Mae'r canllawiau wedi'u trefnu fel a ganlyn:

- Canllawiau cyffredinol: perthnasol i bob ymgeisydd
- Canllawiau graddedig: perthnasol i fathau a graddfeydd penodol o archifau
- Y wybodaeth a'r dogfennau ategol angenrheidiol
- Lle gellir dod o hyd i dystiolaeth
- Cwestiynau i'w hystyried wrth lunio atebion
- Offer ac adnoddau

Geirfa

Mae pob un o'r prif dermau yn Safon yr Achrediad Gwasanaethau Archifau wedi'u diffinio yn yr Eirfa. Mae'r eirfa hon wedi'i llunio drwy ddefnyddio diffiniadau yn nogfennau'r safonau a'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli ac a gaiff eu defnyddio yn y sector archifau.

Y Safon

ADRAN 1: IECHYD SEFYDLIADOL

1.1 Datganiad
Cenhadaeth

1.2 Strwythurau
Llywodraethu a
Rheoli

1.3
Blaengynllunio

1.4 Adnoddau:
adeiladau

1.5 Adnoddau:
Cyllid

1.6 Adnoddau:
Gweithlu

1.1 Datganiad Cenhadaeth

Gofyniad 1.1

Caiff y gwasanaeth archifau ei lywio gan ddatganiad cenhadaeth sy'n diffinio ei bwrpas yng nghyswllt ei gasgliadau, ac sy'n cysylltu dogfen llywodraethu'r sefydliad â pholisïau a chynlluniau priodol y gwasanaeth archifau.

Canlyniad

Caiff pwrpas y gwasanaeth archifau ei gyfathrebu'n glir i'r rhanddeiliaid i gyd, a'i ddeall ganddynt, ac mae'n llyw cadarn i weithgarwch y gwasanaeth a'i broses o lunio penderfyniadau.

1.2 Strwythurau Llywodraethu a Rheoli

Gofyniad 1.2

Mae perthynas y gwasanaeth archifau â'i riant-sefydliad (neu sefydliadau) yn glir ac yn gadarn o safbwynt cyfreithiol. Mae'r uwch-reolwyr yn cydnabod yn ffurfiol bwrpas y gwasanaeth archifau ac yn ei gefnogi; mae'r llinellau awdurdod a'r cyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau rhwng y corff llywodraethu a rheolwyr y gwasanaeth yn dryloyw ac yn effeithiol.

Canlyniad

Mae'r gwasanaeth archifau yn meddu ar strwythurau llywodraethu a rheoli priodol, er mwyn sicrhau casglu, cadwedigaeth a mynediad at y casgliadau yn y tymor hir.

1.3 Blaengynllunio

Gofyniad 1.3

Mae gan y gwasanaeth archifau blaengynlluniau a phrosesau cynllunio effeithiol sy'n dangos dealltwriaeth dda o'r cyd-destun sefydliadol a'r cyd-destun ehangach y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddo, ac yn ymateb yn briodol.

Canlyniad

Mae'r gwasanaeth archifau yn cynllunio'n effeithiol er mwyn bod yn gynaliadwy yn y tymor hir, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn hyblyg, yn berthnasol ac yn wydn mewn amgylchedd sy'n newid yn fewnol ac yn allanol.

1.4 Adnoddau: adeiladau a storfeydd

Gofyniad 1.4

Ceir amodau deiliadaeth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer pob adeilad a safle sy'n cynnwys archifau a gwasanaethau archifau. Mae'r trefniadau'n ddigonol i gadw'r casgliadau eu hunain yn ddiogel ac yn hygyrch. Mae'r trefniadau hefyd yn caniatáu ar gyfer blaengynllunio effeithiol, gan gynnwys ehangu casgliadau at y dyfodol.

Canlyniad

Rhoddir cartref mewn ffordd gyfrifol i'r gwasanaethau archifau ac i'r casgliadau. Caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi cartref ffisegol i archifau a gwasanaethau archifau eu cydnabod a'u rheoli'n weithredol drwy brosesau cynllunio priodol gan sicrhau fod y casgliadau'n cael eu diogelu yn y tymor hir.

1.5 Adnoddau: cyllid

Gofyniad 1.5

Gall y gwasanaeth archifau ddangos sefydlogrwydd ariannol. Mae arian digonol wedi'i ddynodi i alluogi'r gwasanaeth archifau i gyflawni ei flaengynlluniau datganedig.

Canlyniad

Mae rheolwyr y gwasanaethau archifau yn cyfrannu'n briodol at brosesau pennu a rheoli cyllideb perthnasol a gallant gynllunio ar gyfer gwella gwasanaeth ar sail hirdymor, gan sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

1.6 Adnoddau: gweithlu

Gofyniad 1.6


Mae gan y gwasanaeth archifau weithlu sy'n briodol o ran profiad a niferoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau a chynlluniau'r gwasanaeth. Mae gweithdrefnau cyflogaeth a pholisïau gwirfoddoli ar waith i gefnogi perfformiad proffesiynol cymwys a'r broses o ddatblygu'r gweithlu yn barhaus.

Canlyniad

Caiff gwasanaethau archifau eu darparu yn unol â'r safonau proffesiynol a fynnir gan rwymedigaethau cyfreithiol y corff a dyheadau ei flaengynlluniau. Mae'r gweithlu'n glir ynghylch ei rolau a'i gyfrifoldebau a chaiff ei gefnogi i ennill y sgiliau cywir ac i fanteisio ar y cyngor arbenigol cywir i fodloni anghenion cyflawni'r gwasanaeth.

ADRAN 2: CASGLIADAU

Trosolwg



ADRAN 2: CASGLIADAU

2.1 Rheoli Casgliadau

Gofyniad 2.1

Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau cydgysylltiedig o reoli casgliadau, sy'n cael eu tywys gan bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau cydlynol. Dylai'r polisïau gynnwys deunyddiau analog a digidol, pan yn berthnasol, a chael eu cymeradwyo gan yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.

Canlyniad

Mae gweithgareddau rheoli casgliadau'r gwasanaeth archifau wedi'u cysylltu mewn ffordd gyfannol ar lefel polisi ac mae cyswllt clir rhyngddynt a datganiad cenhadaeth y gwasanaeth archifau. Mae polisïau integredig yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

2.2 Datblygu Casgliadau

Gofyniad 2.2

Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau cydgysylltiedig o ddatblygu casgliadau, sy'n cael eu tywys gan bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau cydlynol. Dylai'r dull gweithredu hwn gynnwys deunyddiau analog a digidol, pan yn berthnasol, a chael eu cymeradwyo gan yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.

Canlyniad

Mae gweithgareddau datblygu casgliadau (caffael, gwerthuso a gwerthu) y gwasanaeth archifau wedi'u cysylltu mewn ffordd gyfannol ac mewn ffordd glir â datganiad cenhadaeth y sefydliad. Mae polisïau integredig yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Gofyniad 2.2.1

Mae gan y gwasanaeth archifau bolisi clir ynghylch datblygu casgliadau, sy'n cwmpasu caffael croniadau goddefol a rhagweithiol, gwerthuso a gwerthu deunyddiau.

Gofyniad 2.2.2

Gall y gwasanaeth archifau ddarparu cynllun sy'n nodi manylion y camau sy'n cael eu cymryd i werthuso a rhesymoli'r daliadau presennol ac i adnabod bylchau a blaenoriaethau ar gyfer casgliadau'r dyfodol, yn unol â'i bolisi ynghylch datblygu casgliadau.

2.3 Gwybodaeth am Gasgliadau

Gofyniad 2.3

Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau cydgysylltiedig, sydd wedi'u dogfennu, o weithredu gweithgareddau gwybodaeth am gasgliadau, sy'n cael eu tywys gan bolisiau, cynlluniau a gweithdrefnau cydlynol. Dylai'r dull gweithredu hwn gynnwys y deunyddiau analog a digidol, pan yn berthnasol, a chael cymeradwyaeth yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.

Canlyniad

Mae gweithgareddau gwybodaeth am gasgliadau (derbyn, catalogio a materion etifeddiaeth) y gwasanaeth archifau wedi'u cysylltu mewn ffordd gyfannol ac mewn ffordd glir â datganiad cenhadaeth y sefydliad. Mae polisiau integredig yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Gofyniad 2.3.1

Mae gan y gwasanaeth archifau bolisi ar wybodaeth am gasgliadau, sy'n nodi'n benodol sut y caiff y wybodaeth am gasgliadau ei chofnodi a'i chyfoethogi a'r safonau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu defnyddio.

Gofyniad 2.3.2

Gall y gwasanaeth archifau ddarparu cynllun sy'n nodi'n benodol y camau a gaiff eu cymryd i gyfoethogi'r cofnodion catalog cyfredol ac i fynd i'r afael â gwaith catalogio sydd wedi cronni, yn unol â'i bolisi ar wybodaeth am gasgliadau.

Gofyniad 2.3.3

Mae gweithdrefnau clir, sydd wedi'u dogfennu, ar waith ar gyfer prosesau gwybodaeth am gasgliadau craidd, ac mae'r rheiny'n ddealliedig gan y gweithlu perthnasol ac yn cael eu defnyddio ganddynt.

2.4 Gofal a Chadwraeth Casgliadau

Gofyniad 2.4

Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau cydgysylltiedig, sydd wedi'u dogfennu, o weithredu gweithgareddau gofal a chadwraeth y casgliadau sy'n cael eu tywys gan bolisiâu, cynlluniau a gweithdrefnau cydlynol. Dylai'r dull gweithredu hwn gynnwys y deunyddiau analog a digidol, pan yn berthnasol, a chael cymeradwyaeth yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.

Canlyniad

Mae gweithgareddau gofal a chadwraeth casgliadau (rheoli adeiladau a chadwraeth adferol ac ataliol) y gwasanaeth archifau wedi'u cysylltu mewn ffordd gyfannol ac mewn ffordd glir â datganiad cenhadaeth y sefydliad. Mae polisiâu integredig yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Gofyniad 2.4.1

Mae gan y gwasanaeth archifau bolisi ar ofal a chadwraeth casgliadau, sy'n tywys dull y sefydliad o weithredu cadwraeth ataliol ac adferol, er mwyn sicrhau cadwedigaeth hirdymor y casgliad a mynediad ato.

Gofyniad 2.4.2

Gall y gwasanaeth archifau ddarparu cynllun sy'n nodi manylion y camau a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â blaenoriaethau cadwraeth ataliol ac adferol, yn unol â'i bolisi ar ofal a chadwraeth casgliadau.

Gofyniad 2.4.3


Mae gweithdrefnau clir, sydd wedi'u dogfennu, ar waith ar gyfer gofalu'n rheolaidd am gasgliadau ac mae'r rheiny'n ddealedig gan y gweithlu perthnasol ac yn cael eu defnyddio ganddynt.

Gofyniad 2.4.4

Mae'r gwasanaeth archifau wedi profi cynllun a gweithdrefnau i baratoi ar gyfer trychinebau, sy'n ei alluogi i ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd o argyfwng a sicrhau fod y busnes yn parhau. Mae cynlluniau argyfwng yn berthnasol i bob adeilad sy'n cynnwys casgliadau a gwasanaethau archifau.

ADRAN 3: Rhanddeiliaid a'u Profiadau

Trosolwg



ADRAN 3: Rhanddeiliaid a'u Profiadau

3.1 Polisiâu Mynediad

Gofyniad 3.1

Mae gan y gwasanaeth archifau bolisi clir ar fynediad ac ymgysylltu, sy'n nodi'n benodol y ffyrdd y caiff mynediad ei ddarparu a'i gyfoethogi i bob rhanddeiliad, a hynny'n briodol i ddatganiad cenhadaeth y sefydliad a natur a graddfa ei gasgliad. Dylai'r polisi gael cymeradwyaeth yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.

Canlyniad

Caiff y gwasanaeth archifau ei lywio gan bolisi cytunedig ar fynediad, sy'n cyfathrebu'n glir hawliau mynediad at y casgliad, gan wneud y defnydd gorau posibl ohono. Mae'r polisi yn rhan o'r fframwaith rheoli casgliadau integredig sy'n galluogi cynllunio effeithiol a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl.

3.2 Cynllunio a Chynlluniau Mynediad

Gofyniad 3.2

Mae'r gwasanaeth archifau yn arddangos dealltwriaeth dda o anghenion a diddordebau'r gymuned y'i sefydlwyd i'w gwasanaethu. Mae ganddo gynlluniau ar waith sy'n nodi manylion y camau a gaiff eu cymryd i ddiwallu anghenion mynediad y rhanddeiliaid ac i wella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r cynlluniau yn briodol i ddatganiad cenhadaeth y sefydliad ac i natur a graddfa ei gasgliadau.

Canlyniad 3.2

Mae'r gwasanaeth archifau yn darparu mynediad da at ei gasgliadau i'r gymuned gyfan a gall dystio fod defnyddwyr yn cael profiadau o ansawdd da. Mae ganddo ddull gweithredu, sydd wedi'i gynllunio i ganolbwyntio ar y cwsmer, tuag at wella mynediad ac ymgysylltiad, ac mae'n hynny'n ei alluogi i ymateb yn barhaus i anghenion a diddordebau pob rhanddeiliad.

Gofyniad 3.2.1

Mae'r gwasanaeth archifau yn deall y gymuned y'i sefydlwyd i'w gwasanaethu ac mae ganddo ddulliau effeithiol ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth am y rhanddeiliaid, a sut i ymgysylltu â hwy, gan gynnwys y rhai sydd eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth a darpar ddefnyddwyr.

Gofyniad 3.2.2

Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau effeithiol i ddadansoddi a gwerthuso anghenion a diddordebau rhanddeiliaid presennol a darpar-rhanddeiliaid.

Gofyniad 3.2.3

Mae gan y gwasanaeth archifau gynlluniau sydd wedi'u dogfennu i wella'n barhaus fynediad ac ymgysylltiad mewn ymateb i anghenion a diddordebau dynodedig ei gymuned. Eir ati'n frwd i weithredu ac adolygu'r cynlluniau.

3.3 Gwybodaeth, Gweithdrefnau a Gweithgareddau ynghylch Mynediad

Gofyniad 3.3

Mae'r gwasanaeth archifau yn darparu mynediad at ei ddaliadau ac amrywiaeth o ddulliau i gael mynediad at y casgliadau ac i ymgysylltu â hwy. Mae'n darparu gwybodaeth glir ac ymarferol ar sut i gael mynediad at wasanaethau a chasgliadau, sy'n ateb anghenion a diddordebau ei gymuned ac sy'n diogelu hawliau perchenogion hawlfraint a gwrthrychau'r data.

Canlyniad

Gall defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr leoli'r gwasanaeth archifau yn rhwydd a chânt eu cynorthwyo i gael mynediad at gasgliadau, ac i ymgysylltu â hwy, mewn modd effeithlon a chyda hyder, cyfrifoldeb a gofal.

Gofyniad 3.3.1

Caiff gwybodaeth ymarferol ar sut i gael mynediad at gasgliadau a gwasanaethau archifau, ar y safle ac oddi arno, ei chyfathrebu'n effeithiol i bob rhanddeiliad.

Gofyniad 3.3.2

Mae gweithdrefnau effeithiol, sydd wedi'u dogfennu, ar waith ar gyfer rhoi mynediad i ddefnyddwyr a chaiff y gweithdrefnau hynny eu cyfathrebu'n dda i bob rhanddeiliad.

Gofyniad 3.3.3

Mae amrywiaeth o ddulliau mynediad at y casgliadau a'r gwasanaethau archifau ar gael, a'r rheiny'n briodol i ddatganiad cenhadaeth y sefydliad a natur a graddfa ei gasgliadau.

Cydnabyddiaeth

Mae'r ddogfen hon, a'r dogfennau cysylltiedig, yn ffrwyth 3 blynedd o ymchwil, datblygu a chyd-greu gyda'r sector archifau. Mae'n ganlyniad gwaith a barn nifer o unigolion, grwpiau a sefydliadau ac anfonwn eich diolch atynt.

Mae'r modd y dyluniwyd y cynllun yn ffrwyth ymchwil gan Katrina Thomson a Janice Tullock, fel *Janice Tullock Associates*. Lluniwyd "dogfen ddinistrio" gan Janice ac Alex Cave i gynorthwyo'r broses o gyd-greu gyda'r sector ar ddechrau 2012. Ysgrifennwyd y dogfennau cynllun terfynol hyn gan Katrina Thomson a Janice Tullock, fel *Janice Tullock Associates*, gyda chymorth Melinda Haunton a Jane Shillaker. Cymerodd Katrina ran hefyd fel rhan o'i gwaith i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yr ydym yn ddiolchgar i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ei chefnogaeth hael i'r gwaith pwysig hwn.

Y rhai sydd wedi cyd-greu'r cynllun hwn yw'r 500 a mwy o unigolion a gyfrannodd dros 1000 o sylwadau tuag at greu'r Achrediad Gwasanaethau Archifau. Yr oedd yr ymgeiswyr peilot, a oedd wedi cynnal peilot o'r broses ymgeisio rhwng mis Medi a Rhagfyr 2012, hefyd wedi cyfrannu at y cyd-greu. Diolch i bob un o'r unigolion hyn a'r timau a gyfrannodd sylwadau, amser a chymorth i greu'r cynllun hwn.

Rhaid diolch yn arbennig i'r canlynol am eu sylwadau a'u cyfraniadau:

Yn yr Archifau Gwladol, Melinda Haunton a Jane Shillaker a'u cydweithwyr yn nhîm Datblygu'r Sector Archifau.

Noddwyr gwreiddiol y prosiect, yr Archifau Gwladol a'r Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau.

Aelodau Ffrwd Waith yr Achrediad Archifau:

- Yr Archifau Gwladol – Nick Kingsley a Kevin Mulley
- Cofnodion Cenedlaethol yr Alban – David Brown a Jane Brown
- CyMAL Llywodraeth Cymru – Mary Ellis a Sarah Horton
- Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon – Stephen Scarth a Janet Hancock
- Cyngor yr Alban ar Archifau – Irene O'Brien a Gerry Slater
- Cyngor Celfyddydau Lloegr – Isabel Wilson
- Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru – Charlotte Hodgson
- Cymdeithas Archifau a Chofnodion (y DU ac Iwerddon) – John Chambers